Cofnodion Cyngor Bro Trelech a'r Betws Community Council Minutes

Cynhaliwyd cyfarfod ar nos Lun yr 8fed o Fai 2023 am 8.40yh yng Nghanolfan Gymunedol Alma.

Cynghorwyr yn bresennol: Derrick Harries (Cadeirydd), Andrew Jones, Dyfed Davies, Linda Davies, Ambrose Lewis, Alyson Harries, John Phillips & Cynghorydd Sir Jean Lewis.

Yn cymryd y Cofnodion: Liza Jones (clerc)

1. **Ymddiheuriadau:** Derbyniwyd ymddiheuriadau wrth Ann Sillars, Eirian Howells & Arwyn Jones.
2. **Sylwadau'r Cadeirydd:**
   Diolchodd Derrick Harries i bawb am fynychu.
3. **Datgan Buddiannau:**
   Byddai'r Cynghorydd Sir Jean Lewis yn gadael y cyfarfod pan byddai materion Cynllunio yn cael eu trafod.
4. **Cadarnhau Cofnodion y cyfarfod blaenorol:**
   Roedd cofnodion y cyfarfod o'r 6ed o Fawrth 2023 wedi eu dosbarthu i'r Cynghorwyr cyn y cyfarfod. Cytunwyd bod y cofndion yn gywir ac fe'u llofnodwyd.
5. **Trafod materion sy'n codi o'r cofnodion:**
   - Mesurau Tawelu Traffig yn Trelech – roedd y data a dderbyniwyd yn dangos fod y cyfartaledd cyflymder wedi gostwng o 25.7mya I 24.2mya. Gofynwyd I'r Cynghorydd Sir Jean Lewis siarad gyda'r Adran Tawelu Traffig I weld a oedd unthyw beth pellach a fedrai cael ei wneud.
   - Lefelau Amonia –Nid oedd unrhyw ateb wedi dod hyd yn hyn.
   - Glaspant/Dinas – Roedd y Clerc wedi siarad gyda'r tirfeddianwr ac roedd wedi cael cadarnhad byddai gwaith yn cael ei wneud mewn ymdrech i leihau y nifer o coed yn disgyn mewn stormydd.
   - Diffyg Llywbr troed yn Trelech – Roedd y Clerc wedi cysylltu gyda'r Cyngor Sir ac wedi derbyn ymateb yn nodi fod y cais wedi ei nodi ond nad oedd y pentref wedi cael ei gynnwys yn y Cynllun presennol.
   - Nant ger Eithinduon Uchaf – roedd y clerc wedi adrodd y pryder ond nid oedd wedi derbyn ymateb.

6. Gohebiaeth

~~**a.**~~ Roedd yr anfoneb wrth Cyngor Sir Caerfyrddin am £602.22 am gost goleuadau stryd wedi cael ei dalu cyn diwedd y flwyddyn ariannol yn unol â'r cytundeb a dderbyniwyd drwy ebost wrth y Cynghorwyr.
b. Rhannwyd wybodaeth wrth Fwrdd Iechyd Hywel Dda yn nodi estyniad i'r ymgynghoriad.
c. Roedd Archwilwyr Cymru wedi danfon anfonebau am £314 am 2020-2021 a £200 am 2021-2022. Roedd y clerc wedi gofyn am eglurhad o'r costau. Cytunwyd i dalu'r ddwy anfoneb.
d. Roedd Cyngor Sir Caerfyrddin wedi danfon anfoneb am £161.66 am gosatu etholiadol. Cytunwyd i'w dalu.
e. Cais Cynllunio PL/05687 – estyniad/haulfan @ Iet Fawr, Trelech
f. Roedd cwyn wedi dod am gyflwr y llwybrau cyhoeddus ym Mhenybont wrth Alan Richards. Roedd y clerc wedi cysylltu gyda'r Cyngor Sir i weld pwy oedd yn gyfrifol am gynnal a chadw y llwybrau ac roedd wedi derbyn cadarnhad nad cyfrifoldeb y Cyngir Cymuned oedd. Rhannodd y clerc y manaylion ac y lluniau gyda'r Cynghorwyr.

g. Roedd y cyfrifwyr DMB Davies wedi danfon anfoneb am £384 yn cynnwys TAW. Cytunwyd i'w dalu.

7.Cyllid - Cyfrif Busnes Cyfredol £1,240.76

8. Unrhyw Fater Arall

- Nododd y clerc ei bod wedi gwneud cais am ad-daliad TAW o £1,240.76.
- Gofynnodd y clerc am ganiatad casglu'r hen llyfrau cofnodion yn cael eu dal mewn gofal diogel gyda'r Cyfriethiwr er mwyn cadarnhau manylion. Cytunwyd iddi eu casglu.
- Codwyd pryder am gyflwr yr heol rhwng Neuadd Wen a Man Iwan, Treparcau, Brynawel i Pandy ac roedd draen rhwng yr Hen Ficerdy a Brynteilo heb gael ei lanhau ers dwy flynedd yn achosi dŵr i or-lifo dros yr heol ac achosi erydiad.
- Codwyd pryder hefyd am or-dyfiant coed ger Derlwyn, Trelech gan achosi rhwystr.
- Roedd y Cynghorydd Sir Jean Lewis wedi derbyn cwynion am ddifrod a achoswyd gan lori artic ger Gelli. Gan fod y gyrrwr o dramor, awgrymwyd i roi arwyddion a oedd yn nodi fod yr heol yn anaddas ar gyfer cerbydau mawr mewn ffyrf llun i osgoi unrhyw problemau posib yn y dyfodol.

Gan nad oedd unrhyw fater arall, diolchodd y Cadeirydd pawb a chaëwyd y cyfarfod am 9.25yh.